Prifysgol Abertawe
Swansea University

Gwasanaethau Ansawdd Academaidd
Academic Quality Services

Côd Ymarfer

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Gwybodaeth Bwysig

Beth yw Modiwl?

Set gynnil o ddysgu ac asesu yw modiwl, sy'n ffurfio blociau adeiladu rhaglen astudio. Caiff modiwlau eu mesur yn ôl credydau sy'n rhoi syniad o ba mor hir y bydd yn ei gymryd i fyfyriwr eu cwblhau, a faint o ymdrech fydd ei hangen. Diffinnir modiwlau yn ôl lefelau astudio'r Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch ac mae'n rhaid iddynt fod yn gymesur â lefel perfformiad ddisgwyliedig y myfyrwyr.

Beth yw'r Ffurflen Modiwl Newydd a Ble gallaf ddod o hyd i'r Ffurflen Modiwl Newydd?

Mae'r ffurflen modiwl yn ffynhonnell data allweddol i roi gwybodaeth i fyfyrwyr ac i sicrhau ansawdd. Defnyddir yr wybodaeth a ddarperir i lunio sail wybodaeth y modiwl yn y catalog modiwlau ar-lein, yn ogystal â sail yr wybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr. Oherwydd bod modiwlau'n ffurfio blociau adeiladu rhaglenni, dylid cymryd gofal mewn Cyfadrannau/Ysgolion i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn gywir ac yn hygyrch i fyfyrwyr a staff fel ei gilydd.

At hynny, gellir defnyddio'r system i weld a chwilio am ffurflenni modiwlau sydd wedi'u cadw, ar gyfer datblygu neu ddiwygio ar ôl eu hadolygu, yn ogystal â ffurflenni modiwlau sydd eisoes yn bodloni.

Rhaid cwblhau'r HOLL fodiwlau newydd, gan gynnwys y rhai hynny a gyflwynir gan bartneriaid cydweithredol, ar-lein drwy'r system ffurflenni modiwlau. Sicrhewch fod fersiynau blaenorol neu eiledol o'r templed modiwl yn cael eu dileu.

Mae'r Ffurflen Modiwl Newydd ar gael drwy ddangosfwrdd y System Cymeradwyo a Rheoli Rhaglenni ac yn uniongyrchol drwy'r fewnrwyd o darn Academic Records > Modules > Module Proforma (https://intranet.swan.ac.uk/coursemodules/proforma).

Beth yw'r System Cynnal a Chadw Modiwlau a sut Gallaf Ddod o hyd Iddi?

Unwaith y bydd modiwlau wedi'u cymeradwyo, mae angen eu hadolygu a'u diweddaru bob blwyddyn (gweler Adolygiad Modiwl). Dylid gwneud newidiadau neu ddiwygiadau drwy'r system cynnal a chadw modiwlau ar y fewnrwyd, a'u cymeradwyo gan y Bwrdd Astudiaethau perthnasol a Phwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Gyfadran/Ysgol.

Gellir mynd i'r system cynnal a chadw modiwlau drwy ddangosfwrdd y system Cymeradwyo a Rheoli Rhaglenni.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Beth os na Allaf gael Mynediad i'r Ffurflen Modiwl Newydd neu'r System Cynnal a Chadw Modiwl?

Os nad ydych yn gallu gweld na chael mynediad i'r templed modiwl, cysylltwch â gweinyddwr eich Gyfadran/Ysgol neu wneud cais i Ddesg Gymorth GGS i gael mynediad. Efallai y bydd eich Gyfadran/Ysgol yn mynnu bod pob modiwl yn cael ei gynnal a'i gadw gan staff gweinyddol, felly gwiriwch gyda'r gweinyddwr priodol yn eich Gyfadran/Ysgol?

Pwy sy'n Cymeradwyo Modiwlau Newydd neu rai sydd wedi'u Gwella?

Caiff modiwlau newydd neu rai sydd wedi'u gwella eu cymeradwyo gan y Gyfadran/Ysgol sy'n gyfrifol am eu cyflwyno, yn unol ag ansawdd a safonau diffiniedig y Brifysgol fel yr amlinellir yn y Côd Ymarfer ar gyfer Dylunio, Datblygu a Chymeradwyo Rhaglen Astudio Newydd.

Rhaid i'r Bwrdd Astudiaethau perthnasol adolygu a chymeradwyo cynigion cyn eu cyflwyno i Bwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Gyfadran/Ysgol i'w cymeradwyo'n derfynol.
Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar yr adrannau 'Cymeradwyo Modiwlau Newydd' a 'Rheoli Gwelliannau.

Pa Wasanaeth a all fy Nghefnogi i Ddatblygu ac Adolygu Modiwlau?

Mae'r Gwasanaethau Ansawdd Academaidd yn rhoi cymorth ar gyfer pob agwedd ar y broses hon, a gellir cysylltu â'r gwasanaeth drwy e-bostio academicprogrammes@abertawe.ac.uk.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Datblygu Modiwlau Newydd

Pan fyddwch yn mynd i'r system Ffurflen Modiwl Newydd, byddwch yn gweld y sgrîn uchod (ffigur 1.1.). Dyma'r wybodaeth sylfaenol am y modiwl a fydd yn cael ei defnyddio i greu côd modiwl newydd ac yn eich galluogi i ddechrau creu eich modiwl newydd.

I ddechrau, dewiswch eich pwnc/adran o'r gwymplen gyntaf. Nesaf, dewiswch eich ymateb dangosydd/grwp (gweler isod), eich lefel, blwyddyn academaidd i'w lansio a phryd rydych yn disgwyl addysgu'r modiwl. Yn olaf, sicrhewch eich bod yn rhoi teitl i'ch modiwl sy'n adlewyrchu'r cynnwys.

Ni fydd y system yn gweithio oni bai eich bod yn nodi gwerth yn y blwch 'dangosydd/grwp.' Os nad oes angen llythyren benodol arnoch, dewiswch '-'(llinell doriad) o'r gwymplen. Gallwch newid côd y modiwl yn unol â gofynion eich Gyfadran/Ysgol drwy ddewis llythyren o'r blwch 'dangosydd/grwp.'



Ffigur 1.1

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Pan fyddwch wedi cwblhau'r meysydd perthnasol, bydd y system yn creu côd modiwl unigryw newydd yn awtomatig (gweler ffigur 1.2). Os oes gennych system y mae'n well gennych ei defnyddio i neilltuo codau modiwlau, gallwch wrthwneud y côd os yw'r côd yn unigryw ac yn cynnwys o leiaf 6 nodyn alffaniwmerig fel a ganlyn: alffa (2), alffa neu '. Alffaniwmerig (lefel modiwl), rhifol (2), (e.e.MN-108).



Ffigur 1.2

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Gweld Modiwl Presennol

I chwilio am fodiwl newydd sy'n cael ei ddatblygu a'i weld, dewiswch y maes pwnc i gael rhestr lawn o'r holl fodiwlau yn y maes hwnnw (gweler ffigur 1.1) neu nodi'r meini prawf chwilio yn ôl y cyfarwyddyd. Rhaid nodi pob maes er mwyn chwilio'n llwyddiannus. Trwy deipio llythrennau nodi'r maes pwnc (e.e. PM ar gyfer Meddygaeth) yn y blwch 'côd modiwl,' caiff y gwymplen ei llenwi gyda'r holl fodiwlau o'r maes pwnc hwnnw.

Gwybodaeth am y Modiwl

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r dudalen gyntaf a chadw côd eich modiwl, cewch eich cyfeirio at y sgrîn yn ffigur 1.3. Dyma'r man y byddwch yn mewnbynnu'r wybodaeth graidd am y modiwl.



Figure 1.3

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Credydau

Trwy ychwanegu'r credydau a ddymunir, bydd y blychau 'ECTS Credits' a 'Notional Hours' yn cael eu llenwi'n awtomatig. Gellir golygu'r 'Notional Hours' â llaw gan ddefnyddio'r saethau 'i fyny' ac 'i lawr' i'r dde o'r blwch. Caiff y 'CQFW Level' ei lenwi'n awtomatig hefyd.

Ystyr Amcan o Gyfanswm yr Oriau ?

Amcan o gyfanswm yr oriau yw cyfanswm yr oriau y byddai disgwyl i fyfyriwr dreulio yn cwblhau'r modiwl fel arfer. Caiff y rhain eu cyfrifo fel arfer drwy luosi gwerth y credydau gyda 10 a rhoi fframwaith ar gyfer cyflwyno'r modiwl. Amcangyfrif yw'r rhain yn hytrach na ffigurau terfynol.

Sawl awr Gyswllt y Dylwn i Gynllunio ar ei Gyfer ?

Fel canllaw bras, mae oriau cyswllt fel arfer yn ddwbl gwerth y credydau ar gyfer y modiwl (gweler Tabl 1) e.e. ar gyfer modiwl 'safonol' 20 credyd a addysgir, gallai myfyrwyr ddisgwyl 40 awr gyswllt. Fodd bynnag, nid rheol safonol mo hon, a chyda disgwyliadau cynyddol myfyrwyr a'r syniad o 'gwerth am arian,' caiff Cydlynwyr Modiwlau eu hannog i sicrhau bod yr oriau cyswllt ar gyfer y modiwl yn briodol i'r pwnc a astudir, a bod hyn yn cael ei gyfleu'n glir i fyfyrwyr. Nid yw bellach yn ddigonol i rai rhaglenni gynnig cyswllt cyfyngedig ar y sail bod yn rhaid i fyfyrwyr ddarllen llawer.

Yn y gorffennol, mae'r arweiniad o ran oriau cyswllt wedi'i ddefnyddio i gyfyngu ar oriau cyswllt ac ni ddylai hyn fod yn wir os oes cydbwysedd rhwng oriau cyswllt a'r amser a roddir i fyfyrwyr gymhathu dysgu a pharatoi ar gyfer asesiad.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Sut y Dylwn i Ddadansoddi'r Modiwl?

Yn ogystal â rhestru'r oriau cyswllt ffurfiol, dylech roi disgrifiad o sut caiff yr oriau sy'n weddill eu rhannu fel bod yr oriau tybiannol llawn yn cael eu dos-barthu'n briodol. Bydd hyn yn wahanol yn ôl y math o fodiwl a maes pwnc, ond caiff Cydlynwyr Modi-wlau eu hannog i sicrhau bod rhywfaint o gysondeb ar draws y rhaglen ac ar draws y Brifysgol, i sicrhau bod myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael gwerth am arian a phrofiad cadarnhaol a diddorol fel myfyrwyr.

Mae Tabl 1 yn dangos dosbarthiad oriau a awgrymir ar gyfer gwahanol fathau o fodiwlau ar gyfer modiwl 10 credyd arferol. Gellir allosod gwahanol gredydau o'r set ddata ddangosol hon.

Math o Fodiwl	Credydau	Oriau Cyswllt Dangosol	Darllen/Astudio Preifat	Paratoi ar gyfer Asesiadau	Amcan o Gyfanswm yr Oriau
Modiwl sy'n seiliedig ar ddarlithoedd	10	20	50	30	100
Modiwl sy'n seiliedig ar astudio preifat dwys	10	15	60	25	100
Modiwl sy'n seiliedig ar waith ymarferol	10	50	20	30	100
Modiwl sy'n seiliedig ar brosiect/Traethawd hir	10	5 (isafswm.)	95		100
Modiwl sy'n seiliedig ar y gweithle	10	20	50	30	100
Modiwl sy'n seiliedig ar ymholi	10	10 (isafswm.)		20	100

Tabl 1

Crynodeb o'r Modiwl

Dylai'r crynodeb o'r modiwl gynnwys trosolwg bras o'r modiwl, gan ddweud wrth fyfyrwyr yn gyflym yr hyn y gallant ei ddisgwyl ohono. Dyma'r 'cyflwyniad i werthu'r modiwl,' a chaiff ei gynnwys yn y catalog modiwlau i fyfyrwyr ddewis o'u plith. Fe'ch cynghorir i gadw'r crynodeb yn fyw – mae paragraff yn addas.

Nodiadau i'w Hargraffu (Arddangos) yn y Catalog

Rhoddir yr adran hon i alluogi Cydlynwyr Modiwlau i amlinellu amodau neu ofynion arbennig ar gyfer y modiwl – e.e. 'ddim ar gael i fyfyrwyr ymweld,' neu ar gael i fyfyrwyr ar raglen astudio benodol yn unig. Caiff yr wybodaeth hon hefyd ei dangos yn y cata-log modiwlau ar-lein.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Dull Cyflwyno

Dylai Cydlynwyr Modiwlau nodi'r dull cyflwyno – boed ar y campws, yn ddysgu o bell, drwy fideo-gynadledda neu gyfuniad ohonynt.

Darpariaeth ar y Cyd

Nodwch a yw'r modiwl yn cynnwys lleoliadau gwaith neu a fydd yn cael ei gyflwyno gan neu gyda sefydliad arall. Os ydych wedi ateb 'ydy' i un o'r cwestiynau, rhaid trafod y modiwl gyda'r Gwasanaethau Ansawdd Academaidd a'r Adran Partneriaethau Academaidd. Bydd y timau'n asesu pa gamau caffael neu gamau pellach sydd eu hangen (os oes rhai). Diben y cyfeiriad hwn yw sicrhau bod yr holl gyfleoedd dysgu a gyflwynir gyda neu gan bartneriaid yn cael eu cymeradwyo drwy sianeli priodol ac yn cael eu cofnodi yng nghofrestr o weithgareddau ar y cyd y Brifysgol, gan gynnwys lleoliadau diwydiannol neu leoliadau tramor.

Os yw'r modiwl yn cynnwys gweithio gyda phartner allanol newydd, yna rhaid i'r Bwrdd Partneriaethau Cydweithredol gymeradwyo'r partner arfaethedig newydd cyn y gellir awdurdodi'r modiwl.

Gall y modiwl symud ymlaen i Bwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Gyfadran/Ysgol i'w adolygu unwaith y bydd aelod o Fwrdd Partneriaethau Cydweithredol y Gyfadran/Ysgol wedi'i awdurdodi ac o dan arweiniad gan y Gwasanaethau Ansawdd Academaidd a'r Adran Partneriaethau Academaidd.

Nodau'r Modiwl

Dylid rhestru nodau'r modiwl yn yr adran hon. Datganiad cyffredinol sy'n amlinellu'r hyn bydd y modiwl yn ei gyflawni yw'r nod. Er enghraifft,

'i helpu cyfranwyr i ddatblygu eu rôl fel addysgwyr iechyd yn eu gwaith bob dydd fel nad yw addysg iechyd yn cael ei wahanu oddi wrth gweithgareddau bob dydd.'

Ni ddylid drysu nodau'r modiwl fel Deilliannau Dysgu na defnyddio'r term hwnnw amdanynt – dylent ganolbwyntio ar yr hyn y bydd y myfyriwr yn ei gyflawni. At hynny, ni ddylai nodau'r modiwl fod yr un fath â chrynodeb o'r modiwl (uchod).

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gwahaniaeth rhwng nodau a deilliannau a sut i'w hysgrifennu yn 'Ysgrifennu Deilliannau Dysgu Effeithiol'.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Deilliannau Dysgu a Fwriedir

Mae Deilliannau Dysgu a Fwriedir yn ddatganiadau o'r hyn y disgwylir i ddysgwr allu ei wneud o ganlyniad i gwblhau profiad dysgu (modiwl neu raglen astudio fel arfer), a dylai fod cysylltiad amlwg rhyngddynt a dulliau asesu fel arwydd o'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos bod y myfyriwr wedi gwneud y dysgu. Nodwch y deilliannau dysgu ar gyfer y modiwl yn yr adran hon, sy'n perthyn i ddeilliannau dysgu'r rhaglen y bydd y modiwl yn cyfrannu atynt. Gall deilliannau dysgu fod yn anodd eu hysgrifennu a'u gwneud yn effeithiol, felly caiff Cydlynwyr Modiwlau eu hannog yn gryf i adolygu'r wybodaeth am ddeilliannau dysgu a sut i'w hysgrifennu nhw yn yr adran Ysgrifennu Deilliannau Dysgu cyn dechrau ysgrifennu'r modiwl.

Cyfluniad Adeiladol

Dyma broses sy'n sicrhau bod cydlyniad a perthynas adeiladol rhwng nodau rhaglen, deilliannau dysgu rhaglen, nodau modiwl, deilliannau dysgu modiwl, natur cyflwyno'r rhaglen/modiwl, yr asesiad, yr adborth a'r blaenborth a roddir, a bod y rhain i gyd yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd sy'n rhoi dysgu adeiladol i fyfyrwyr . Mae'r ymagwedd aliniad adeiladol yn cydnabod bod gwybodaeth yn cael ei chreu gan weithgareddau'r dysgwr yn hytrach na chael ei throsglwyddo'n uniongyrchol o'r athro i'r myfyriwr. Ceir dysgu drwy ymddygiad gweithredol y myfyriwr: drwy'r hyn maent yn ei wneud y maent yn dysgu, nid drwy'r hyn y mae'r athro yn ei wneud.

Sawl Deilliant Dysgu y dylid ei gael?

Dylid cynnwys digon o ddeilliannau dysgu i rychwantu cynnwys dysgu'r modiwl ond nid cynifer fel bod yr asesu a'r adborth yn rhy gymhleth. Dylid osgoi deilliannau dysgu cyfansawdd am yr un rheswm.

Sut i gynnwys y Cymwyseddau y gofynnir amdanynt gan Gyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol?

Bydd y rhain yn cael dylanwad mawr ar ddeilliannau dysgu'r rhaglen a'r modiwl ond dylai llunwyr modiwl fod yn ymwybodol nad ydynt bob amser yn cael eu llunio yn yr iaith sy'n ofynnol gan ddysgu Addysg Uwch ar y lefel gywir fel sy'n ofynnol gan y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ) a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW). Gofynnwch am gyngor gan y Gwasanaethau Ansawdd Academaidd neu SALT i gynorthwyo gyda hyn.

Lefel Deilliant Dysgu Modiwl

Byddwch yn ymwybodol nad yw pob deilliant dysgu mewn modiwl yn gorfod cael ei bennu ar lefel y modiwl. Mae'n dderbyniol, er enghraifft, os bydd ambell ddeilliant dysgu lefel 6/5 neu hyd yn oed lefel 4 mewn modiwl lefel 7. Serch hynny, dylai cynnwys cyffredinol deilliannau dysgu modiwl gael ei bennu ar lefel gywir yr FHEQ.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Canlyniadau Dysgu a Fwriedir

Deilliannau dysgu yw datganiadau o'r hyn y disgwylir i ddysgwr ei wneud o ganlyniad i gwblhau profiad dysgu (modiwl neu raglen astudio fel arfer), a dylid eu cysylltu'n glir â dulliau asesu i nodi'r dystiolaeth y mae ei hangen i ddangos bod y dysgu gofynnol wedi'i gynnal.

Nodwch y deilliannau dysgu ar gyfer y modiwl yn yr adran hon, sy'n ymwneud â Deilliannau Dysgu'r rhaglen y bydd y modiwl yn cyfrannu atynt. Gall fod yn heriol ysgrifennu Deilliannau Dysgu a sicrhau eu bod yn effeithiol, felly anogir Cydlynwyr Modiwlau yn gryf i adolygu'r wybodaeth am ddeilliannau dysgu a sut i'w hysgrifennu sydd wedi'i chynnwys yn 'Ysgrifennu Deilliannau Dysgu Effeithiol' cyn ysgrifennu'r modiwl.

Sgiliau Trosglwyddadwy

Dylai'r adran allweddol hon gynnwys gwybodaeth am ba sgiliau trosglwyddadwy, cyflogaeth, entrepreneuraidd neu gyffredin y bydd myfyriwr yn eu dysgu yn ystod y modiwl hwn. Yn gyffredinol, dylid strwythuro'r adran hon mewn ffordd debyg i'r Deilliannau Dysgu gan ddefnyddio rhagarweiniad tebyg megis 'Ar ddiwedd y modiwl hwn, dylai myfyrwyr fod yn gallu...'

Mae'r adran hon yn dod yn fwyfwy hanfodol i fyfyrwyr wrth iddynt geisio gwella eu rhagolygon gyrfaol drwy ddatblygu sgiliau dysgu ychwanegol a fydd yn eu helpu yn y dyfodol. Dylai datblygwyr ystyried yn ofalus pa sgiliau trosglwyddadwy y bydd myfyrwyr yn eu dysgu yn ystod eich modiwl, a'u nodi'n gywir yn y templed. Mae enghraifft o sgiliau trosglwyddadwy priodol isod. Ar ddiwedd y modiwl hwn, dylai myfyrwyr fod yn gallu:

- Cyrchu, rheoli a defnyddio gwybodaeth ym mhob cyfrwng, gan gynnwys yn electronig;
- Cyflwyno gwybodaeth yn eglur mewn modd ysgrifenedig, electronig ac ar lafar, a chyfleu syniadau a dadleuon yn effeithiol;
- Rheoli amser ac adnoddau'n effeithiol a phennu blaenoriaethau;
- Astudio pynciau'n fanwl;
- Gweithredu'n wydn a gweithio mewn am gylchedd heriol;
- Gweithio mewn tîm yn effeithiol.

Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Ystyrir Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fydeang yn gyfrifoldeb pwysig ym maes Addysg Uwch. Mae'r Brifysgol yn ceisio dysgu ei chyn-fyfyrwyr, fel dysgwyr y dyfodol, gweithwyr proffesiynol a dinasyddion, i ddeall materion ac effeithiau anghynaliadwyedd yn well, ac i gymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn y brifysgol a chyfrannu'n effeithiol at lunio atebion ac effeithiau cynaliadwy. Wrth ddatblygu modiwlau newydd, dylai Cydlynwyr Modiwlau ystyried sut bydd eu modiwl yn cyfrannu at yr addysg hon drwyddi draw. Mae enghreifftiau o sut gall eich modiwl gynnwys hyn fel a ganlyn:

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

- Rhoi'r maes/mater pwnc mewn cyd-destun lleol a byd-eang
- Cysylltu mater pwnc i faterion amgylcheddol a byd-eang
- Datblygu sgiliau allweddol a throsglwyddadwy, yn enwedig meddwl yn feirniadol
- Sgiliau arweinyddiaeth
- Sgiliau ymchwil
- Lleoliadau Gwaith
- Sgiliau cyflogadwyedd

Rhoddir rhagor o wybodaeth am gynnwys Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Maes Llafur

Rhestr o bwyntiau bwled yw'r maes llafur fel arfer o'r pwnc a'r meysydd pwnc y mae'r modiwl yn eu trafod. Er enghraifft:

- Ymddygiad;
- Maeth;
- Cludiant;
- Datblygu;
- Symud;
- Amddiffyn.

Mae'n well cadw gwybodaeth yn yr adran hon yn eithaf cryno, wrth roi syniad da i fyfyrwyr o'r hyn y byddant yn ei astudio yn ystod y modiwl.

Rhestrau Darllen

Lansiodd y Brifysgol y system iFindReading newydd (rhestrau darllen Rebus) yn ystod 2012-13, sydd wedi ehangu'n sylweddol y defnydd o restrau darllen a'r cysylltiadau rhwng Cydlynwyr Modiwlau a Llyfrgellwyr Pwnc. Bydd angen creu rhestr ddarllen newydd ar gyfer modiwlau newydd. I ddechrau, dewiswch 'Creu/Golygu Rhestr' a mewngofnodi i'r system iFind

Amgylcheddau Dysgu ac Addysgu Cynhwysol

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Asesu ac Adborth

Rhaid bod pob modiwl wedi nodi math penodol o ddull safoni i'w ddefnyddio. Er y byddai marcio dwbl-ddall yn ddelfrydol ar gyfer pob asesiad, mae'r Brifysgol yn derbyn bod hyn yn gofyn am lawer o adnoddau. Mae'r Brifysgol felly yn derbyn ystod o opsiynau o ran dulliau safoni ar gyfer asesiad(au), sy'n cyfrannu at farc cyffredinol y modiwl. Dewiswch y math mwyaf priodol o ddull safoni ar gyfer y math o asesiad neu faes pwnc. Nid oes angen marcio dwbl ar ddulliau asesu sydd â marcio gwrthrychol a/neu awtomataidd (e.e. wedi'i ddarllen yn optegol neu ar gyfrifiadur).

RHAID marcio pob traethawd hir ôl-raddedig a ad-dysgir a gyflwynir fel rhan o Ddysgu Annibynnol dan Gyfarwyddyd ddwywaith yn ddal neu ddefnyddio dull marcio dwbl-ddall a ddefnyddir yn fyd-eang. Pan fydd partner cydweithredol yn rhan o ddatblygu a chyflwyno modiwl, rhaid bod y partner yn ymwy-bodol o reoliadau Prifysgol Abertawe, a gofynion ei Pholisi Adborth ac Asesu.

Cydrannau Asesu



I ychwanegu cydrannau asesu, cliciwch ar y botwm 'Diweddaru Cydran(nau) Modiwl' yn y gornel chwith uchaf. Caiff ei ddiweddaru'n awtomatig yn y system arholi myfyrwyr fel nad oes angen i chi ddiweddaru systemau eraill.

Nodwch yr holl gydrannau gofynnol, gan gynnwys y ganran y mae pob math o asesiad yn ei gyfrannu at farc cyffredinol y modiwl. Yn yr adran 'disgrifiad o gydrannau,' nodwch wybodaeth arall am yr asesiadau, gan gynnwys nifer y geiriau, hyd y cyflwyniadau ac ati.

Unwaith y byddwch wedi ychwanegu'r holl gydrannau asesu gofynnol, cliciwch ar y groes yng nghornel chwith uchaf y sgrîn i ddychwelyd i'r templed. Nid oes dangosydd ar hyn o bryd i gadarnhau bod y diwygia-dau wedi'u gwneud, ond dylent ymddangos yn eich templed yn awr.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Faint o Asesu y Dylwn i ei Gynnwys yn fy Modiwl?

Mae'r Tabl Cywerthedd Asesu yn darparu tariffau asesu dangosol ar gyfer modiwl 10 credyd a addysgir nodweddiadol. Gan fod y Brifysgol yn disgwyl mwy o ymagweddau ffurfiannol a dilys at asesu, dylid defnyddio'r model dangosol yn ofalus ac fel arweiniad, er mwyn osgoi cyfyngu ar arloesi. Gall rhai modiwlau ymddangos fel eu bod yn cynnwys pwysiad uwch o asesiadau nag eraill gan ddibynnu ar y rhaglen gyffredinol. Lle bynnag y bo modd, dylid cael rhywfaint o gysondeb rhwng modiwlau sy'n cyfrannu at raglenni o ran pwysiad/cyfraniad at y marciau cyffredinol . Lle ceir amrywiant, rhaid bod rhesymeg glir am hyn.

Dylech sicrhau bod y rhaglen yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau asesu ffurfiannol a chrynodol, sy'n berthnasol i'r maes pwnc. Dylai'r llwyth asesu cyffredinol fod yn deg ac yn gytbwys, ac ni ddylai roi pwysau diangen ar y myfyrwyr, felly mae'n bwysig edrych ar lwyth asesu'r rhaglen yn ogystal â'r llwyth ym mhob modiwl unigol.

Dylai Cydlynwyr Modiwlau a Chyfarwyddwyr Rhaglenni ystyried strategaeth asesu gyffredinol y rhaglen pan fydd modiwlau newydd yn cael eu cyflwyno, i sicrhau bod patrwm asesu cyffredinol y rhaglen yn parhau i fod yn gytbwys. Nid oes angen cynnwys asesiadau ffurfiannol ar y system asesu, ond efallai y bydd hi'n ddefnyddiol i staff gynnwys hyn ar y templed i gynorthwyo'r broses gymeradwyo.

Am fwy o wybodaeth ac arweiniad ar ymagweddau asesu ac adborth, gweler y Côd Ymarfer ar gyfer Dysgu, Addysgu ac Asesu.

Diffiniadau

Gweler Canllaw Prifysgol Abertawe i Fathau o Asesiad sy'n cynnig cyngor ar y ffyrdd gwahanol o asesu sy'n fwyaf addas ar gyfer deiliannau dysgu penodol. Mae Diffiniadau'r Asesiadau a'r Addasiadau Rhesymol yn manylu ar ddiffiniadau allweddol wedi'u cytuno ledled y Brifysgol ar gyfer arferion asesu, ar y campws ac ar-lein, yn ogystal â chynnig arweiniad clir a chyson ar gyfer cefnogi myfyrwyr drwy ymarfer cynhwysol ac addasiadau rhesymol.

Adborth ar Asesiadau

Nodwch wybodaeth am sut y bydd myfyrwyr yn derbyn adborth ar eu gwaith asesedig. Fel arfer dylai myfyrwyr gael adborth ar eu gwaith o fewn tair wythnos o gyflwyno, neu o fewn yr wythnosau adborth a drefnwyd yn dilyn y cyfnodau arholi.

Dylai'r holl adborth fod yn adeiladol a rhoi dadansoddiad digonol i fyfyrwyr ar eu gwaith i'w galluogi i ddefnyddio'r adborth i wella mewn da bryd ar gyfer yr asesiad nesaf. Dylid hefyd roi adborth i bob myfyriwr ar yr holl fodiwlau, ni waeth ble a sut y cânt eu cyflwyno.

Lle darperir adborth ysgrifenedig, dylid ei roi'n electronig ar lefel sylfaenol, ond caiff marcwyr eu hannog i ddefnyddio adborth sain/fideo a dulliau arloesol eraill.

Dylai marcwyr osgoi rhoi adborth â llaw i sicrhau bod yr adborth yn glir i bob myfyriwr – yn enwedig y rhai hynny sydd ag anableddau a allai effeithio ar eu gallu i ddarllen testun a ysgrifennwyd â llaw.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Dylid nodi adborth yn glir i fyfyrwyr, i sicrhau eu bod yn deall gwerth yr hyn a ddarperir iddynt.

Gellir darparu adborth mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys drwy Blackboard, e-bost, ar lafar, mewn cyfarfodydd tiwtorial (unigol neu mewn grŵp), recordiadau sain neu bodlediadau neu drwy daflenni gwybodaeth wedi'u hargraffu.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ar sut i roi adborth i fyfyrwyr, edrychwch ar Approaches to Inclusive Feedback.

Asesu Cynhwysol

Fel gydag arferion dysgu ac addysgu, rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod asesu'n hygyrch i'r holl fyfyrwyr, lle bynnag y bo'n bosib, a chymryd camau gweithredu rhagflaenorol wrth lunio asesiad i leihau unrhyw newidiadau gofynnol i ddulliau asesu er mwyn galluogi myfyrwyr â chyfyngiadau a allai effeithio ar eu gallu i ymgymryd ag ef (e.e. anabledd, crefydd, cefndir, lleoliad). Nid yw'n ddigonol cynnwys datganiad cyffredinol o ran asesu cynhwysol.

Disgwylir i Gyfadrannau/Ysgolion gysylltu â SAILS, SALT a'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr wrth ddatblygu ymagweddau asesu cynhwysol, felly bydd angen gwybodaeth benodol am sut mae asesu'n cael ei wneud yn fwy cynhwysol ar y modiwl.

Am ragor o wybodaeth am sut i wneud yr asesiad yn gynhwysol, gweler y Côd ymarfer ar gyfer Dysgu, Addysgu ac Asesu: Ymagweddau at Asesu Cynhwysol - Dylunio Asesiad Cynhwysol.

Gwneud yn Iawn am Fethiant

Amlinellwch sut y bydd myfyrwyr yn gwneud yn iawn am fethiant yn y modiwl. Os ydynt yn methu rhan, a fydd angen iddynt ailadrodd y rhan honno'n unig, neu ailadrodd pob rhan o asesiad y modiwl hwnnw? Gellir defnyddio asesiad ategol (arholiad neu asesiad parhaus) yn lle ailadrodd rhannau penodol os oes angen. Sicrhewch fod asesiad ategol yn wahanol i'r asesiad gwreiddiol, ond ei fod yn asesu Deilliannau Dysgu'r modiwl yn effeithiol.

Gellir defnyddio'r ymadroddion canlynol os oes angen:

- Ailadrodd rhan(nau) a fethwyd
- Ailadrodd holl rannau'r asesiad
- Arholiad a/neu asesiad ategol
-

Pan gyflwynir modiwl fel rhan o raglen gydweithredol, rhaid i'r holl bartneriaid cydweithredol gytuno ar y broses gwneud yn iawn am fethiannau.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Rheolau, Cydlynwyr a Chyfranogwyr Modiwlau

Bloc/Semester Addysgu

Gwiriwch fod y Bloc Addysgu (Semester) priodol wedi'i ddewis yn ystod y cam sefydlu cychwynnol. Mae'r blwch arddangos ar y sgrîn at ddibenion gwybodaeth yn unig, ac ni ellir ei newid. Os yw'r wybodaeth yn anghywir, cysylltwch â Chymorth TG.

Cydlynydd a Chyfranogwyr Modiwlau

Mae'n hanfodol eich bod yn rhestru Cydlynydd y Modiwl a'r holl ddarlithwyr sy'n cyfrannu at y modiwl yn gywir. Defnyddir yr wybodaeth hon gan y broses adborth ar fodiwlau newydd i sicrhau bod y Cydlynwyr Modiwlau a neilltuir i fodiwlau'n cael eu cofnodi'n gywir. Rhaid bod y Cydlynydd Modiwl yn aelod o staff y Brifysgol. Gall staff ar gontractau am gyfnod penodol fod yn Gydlynwyr Modiwl os oes cynlluniau wrth gefn ac arbenigedd i gyflwyno'r modiwlau os yw'r Cydlynydd yn gadael y Brifysgol.

Dilynwch y cyfarwyddiadau canlynol i ychwanegu aelod newydd o staff:

Gweithiwr y Brifysgol

Cydlynydd y Modiwl

Dechreuwch deipio cyfenw Cydlynydd y Modiwl yn y blwch. Dylai rhestr o staff ymddangos a gallwch ddewis o'u plith. Os nad yw'r Cydlynydd rydych yn ei ddymuno ar y rhestr, cysylltwch â'r adran Adnoddau Dynol.

Cyfranwyr y Modiwl

Cliciwch ar y groes yn y gornel chwith uchaf i ychwanegu cyfrannwr newydd. Teipiwch gyfenw'r cyfrannwr neu rif staff, a dylai rhestr ymddangos a gallwch ddewis o'u plith. Unwaith y byddwch wedi dewis, bydd hyn yn llenwi'r meysydd eraill yn awtomatig. Ar ôl ichi ychwanegu'r cyfrannwr, neilltuwch werth canrannol bras i faint o addysgu a gyfrannwyd a chlicio ar y groes werdd. Gallwch ailadrodd y broses hon mor aml ag sy'n ofynnol.

Gweithwyr nad ydynt yn gyflogedig gan y Brifysgol

Dewiswch 'Yes' o'r blwch 'Module delivered by non-University employee?' a bydd isadran yn ymddangos. Teipiwch yr enw, y sefydliad ac amcangyfrif o'r ganran i'r blwch a ddarperir, yn ogystal â datganiad bras yn amlinellu sut rydych yn bwriadu sicrhau bod ansawdd y gwaith maen nhw'n ymgymryd ag ef yn bodloni safonau gofynnol y Brifysgol.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

The Higher Education Classification of Subjects (HECoS)



Mewnbynnwch y côd(au) HECoS (JACS gynt) priodol ar gyfer y maes/meysydd pwnc drwy agor y rhestr o godau HECoS gan ddefnyddio'r ddolen ar frig yr adran, clicio ar y groes yn y gornel chwith uchaf, ac yna ychwanegu'r côd(au) perthnasol yn y blwch. Trwy deipio llythyren gyntaf y côd rydych yn ei ddymuno, bydd cwymplen o bob côd HECoS yn dechrau gyda'r llythyren honno'n cael ei chreu. Ychwanegwch gynifer o godau ag sydd angen, gan nodi canran pob côd yn y golofn ar yr ochr dde.

Rheolau Dewis Modiwlau

Nodwch fodiwlau y mae'n ofynnol eu cwblhau naill ai ochr yn ochr â (cydofyniad) neu cyn (rhagofyniad) y modiwl newydd (e.e. a oes rhaid i fyfyrwyr gwblhau bioleg A101 cyn y gallant ymgymryd ag A102, neu a oes rhaid iddynt ymgymryd â'r ddau A101 ac A102 ar yr un pryd?).Ar gyfer modiwlau anghydnaws nodwch y rhain yn yr adran nad ydynt yn ofynnol.

Oherwydd bod y Brifysgol yn gweithredu model fesul semester i wella cyfleoedd ar gyfer symudedd myfyrwyr lefel 5 a lefel 6, dylid cyfyngu ar fodiwlau cydofyniad neu ragofyniad. Fodd bynnag, os yw'r rhain yn ofynnol, trafodwch â'r Bwrdd Myfyrwyr priodol a Phwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Coleg a dilyn y cyfarwyddiadau isod.

I nodi modiwl, cliciwch ar y groes ac yna dechrau teipio côd y modiwl yn y blwch sy'n ymddangos. Os nad ydych yn siŵr am yr union gôd, teipiwch y ddwy lythyren gyntaf (e.e. PM) a bydd cwymplen yn ymddangos a fydd yn eich galluogi i ddewis o'r rhestr o fodiwlau sydd ar gael yn y maes pwnc.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Gofynion Canvas ac E-ddysgu

Cadarnhewch a fydd angen safle Canvas newydd, neu a fydd y modiwl yn rhannu safle â modiwl sydd eisoes yn bodoli. Os bydd yn rhannu safle, a wnewch chi gynnwys côd y modiwl perthnasol ar gyfer y safle presennol. Sylwch ei bod hi'n ofynnol i bob modiwl fod â phresenoldeb ar Blackboard a bydd isafswm safonau a chynnwys yn berthnasol i safle Canvas pan fydd y modiwl yn cael ei gymeradwyo.

Ar Gyfer pa Weithgareddau Asesu Rydych chi'n Bwriadu Defnyddio E-ddysgu?

Please provide a brief overview of any learning activities for which you will use e-Learning, notably Canvas. This can include providing lecture notes and slides, module handbooks, podcasts or videos, in class 'clicker' polls and any other useful information for students relating to the module.

Ar gyfer pa weithgareddau asesu rydych chi'n bwriadu defnyddio E-ddysgu?

Nodwch drosolwg cryno o weithgareddau dysgu y byddwch yn defnyddio dulliau e-ddysgu. Gallai hyn gynnwys asesiadau ffurfiannol, cyflwyno asesiad drwy Turnitin, darparu adborth neu arholiadau cyfansymiol ar gyfrifiadur.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Gwybodaeth Weinyddol

Nifer y Myfyrwyr

Nodwch y nifer uchaf o fyfyrwyr sy'n gallu cofrestru ar y modiwl hwn, gan roi ystyriaeth ddyledus i lwyth gwaith asesu staff a nifer y mannau addysgu sydd ar gael. Y rhagosodiad yw 9999, felly fe'ch cynghorir i sicrhau eich bod yn cwblhau'r adran hon i osgoi cael gormod o bobl yn cofrestru.

Pa Mor aml y Caiff y Modiwl ei gynnal?

Nodwch pa mor aml bydd y modiwl yn cael ei gynnal yn ystod pob sesiwn – unwaith bydd hyn yn gyffredinol, fodd bynnag, dylech nodi os bydd y modiwl yn cael ei gynnal mwy nag unwaith, a phryd.

Lle bydd y Modiwl yn cael ei Gyflwyno?

Nodwch lle bydd y modiwl yn cael ei gyflwyno – hynny yw, ar y campws neu mewn lleoliadau eraill (e.e. Bwrdd Iechyd Lleol, Safleoedd Cymunedol).

A yw'r Modiwl yn Gorgyffwrdd â Meysydd pwnc eraill neu'n Disodli Modiwl Presennol?

Nodwch a yw'r modiwl newydd arfaethedig yn gorgyffwrdd â phwnc arall a gyflwynir mewn modiwl arall, a pham fod angen hyn (dylech nodi bod materion wedi'u trafod gyda'r meysydd pwnc cysylltiedig).

Dylech hefyd nodi os yw'r modiwl arfaethedig yn disodli modiwl presennol sydd wedi'i ddatblygu, drwy gynnwys côd y modiwl sy'n cael ei ddisodli.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Cyflwyno, Craffu a Chymeradwyo

Unwaith y bydd ffurflen modiwl newydd wedi'i chwblhau, dylai Cydlynydd y Modiwl wirio'r wybodaeth i sicrhau ei bod yn gywir. Unwaith y byddwch wedi cwblhau hyn, cliciwch ar y botwm 'save as draft' i sicrhau bod y gwaith wedi'i gadw, a chlicio 'validate' i wirio a yw'r data a fewnbynnwyd yn gyflawn. Os oes rhai o'r meysydd yn wag, caiff y rhain eu nodi ar y templed ar-lein. Unwaith y byddwch wedi gwirio'r data, cliciwch 'Submit to LTC' i gyflwyno'r ffurflen i Bwyllgor Dysgu ac Addysgu eich Coleg/Ysgol i'w adolygu a'i gymeradwyo. Bydd hyn yn rhoi gwybod i gynrychiolydd enwebedig eich Ysgol/Coleg yn awtomatig.

Unwaith y bydd Pwyllgor Dysgu ac Addysgu y Coleg/Ysgol wedi adolygu'r modiwl, a bod Cydlynydd y Modiwl wedi gwneud newidiadau gofynnol, bydd yr unigolyn awdurdodedig yn eich Coleg/Ysgol yn cymeradwyo'r modiwl terfynol. Bydd hyn yn rhoi gwybod i Gofnodion Myfyrwyr ar unwaith, a chaiff eich modiwl ei ychwanegu i'r catalog ar-lein.



Sut caiff fy Modiwl ei Adolygu a'i Gymeradwyo?

Caiff ffurflen gyflawn y modiwl unwaith y bydd wedi'i chyflwyno, ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd Astudiaethau perthnasol ac yna gan Bwyllgor Dysgu ac Addysgu llawn y Gyfadran/Ysgol (oni bai fod gan eich Gyfadran/Ysgol fwrdd sydd â phŵer datganoledig dros benderfyniadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm).

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Pwy yw'r olaf i gymeradwyo fy modiwl?

Bydd Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu y Gyfadran/Ysgol yn gwneud y penderfyniad terfynol dros gymeradwyo'r modiwl.

Sut caiff modiwlau 'traws-sefydliadol' eu cymeradwyo?

Modiwlau traws-sefydliadol yw'r rhai hynny a gyflwynir ar draws y sefydliad gan Gydlynwyr Modiwlau nad ydynt yn rhan o strwythur ffurfiol y Gyfadran/Ysgol, er enghraifft, yn y Gwasanaethau Proffesiynol, lle nad oes Pwyllgor Dysgu ac Addysgu yn y Gyfadran/Ysgol i'w cymeradwyo. Mewn achosion o'r fath, caiff y ffurflenni cyflawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni i'w hadolygu a'u cymeradwyo.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cymeradwyo modiwlau bob blwyddyn?

Fel arfer, dylid cymeradwyo'r holl fodiwlau newydd gan Bwyllgor Dysgu ac Addysgu y Gyfadran/Ysgol erbyn 31 Mai bob blwyddyn, er mwyn ei gynnal y flwyddyn academaidd ganlynol. Sylwer bod dyddiadau cau cynt ar gyfer rhaglenni (yn dibynnu ar y lefel/math). Bydd angen ichi ystyried hyn wrth ddatblygu eich modiwl.

Mewn amgylchiadau eithriadol yn unig y caiff modiwlau newydd eu cymeradwyo ar ôl y dyddiad hwn a chyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf e.e. staff newydd annisgwyl / staff presennol ddim ar gael yn sydyn.

Pam mae angen cymeradwyo modiwl erbyn 31 Mai?

Mae'r dyddiad cau, sef 31 Mai, yn sicrhau bod modd cynllunio'r holl fodiwlau a'u nodi ar yr amserlen yn effeithiol. I sicrhau bod y Tîm Amserlennu yn Ystadau yn gallu amserlennu'r holl fodiwlau a addysgir yn effeithiol, mae'r amserlenni canlynol wedi'u creu i ddarparu gwybodaeth ynghylch modiwlau newydd a phresennol:

Canol Ebrill – cysylltir â Chyfadrannau/Ysgolion i roi gwybodaeth fras am ofynion mannau addysgu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys gofynion arfaethedig ar gyfer modiwlau newydd neu rai a ddiwygiwyd.

1 Mehefin – Y dyddiad cau olaf ar gyfer cyflwyno gofynion cychwynnol ar gyfer mannau addysgu, gan gynnwys modiwlau newydd neu rai presennol.

Diwedd mis Gorffennaf – Rhyddheir amserlen ddrafft i gael sylwadau gan Gyfadran/Ysgol.

Canol mis Awst – dyddiad cau ar gyfer gwneud newidiadau terfynol i'r amserlen.

Sicrhewch fod yr wybodaeth (go iawn neu arfaethedig) ar gyfer yr holl fodiwlau newydd neu rai sydd wedi'u gwella yn cael ei darparu cyn gynted ag y bo modd.

Datblygu, Adolygiad a Gwella'r Modiwl

Sut gallaf ddefnyddio'r ffurflen modiwl i roi gwybodaeth i fyfyrwyr?

Mae'r wybodaeth ganolog gynhwysol sy'n cael ei storio bellach yn y System Cofnodion Myfyrwyr drwy'r ffurflen modiwl ar-lein a'r system cynnal a chadw yn sicrhau bod cofnod cywir a chanolog o wybodaeth am fodiwlau i staff a myfyrwyr, ac mae'n golygu nad oes angen storio gwybodaeth yn lleol. Gall yr wybodaeth, unwaith y bydd wedi'i chymeradwyo, lunio craidd eich llawlyfrau modiwlau a myfyrwyr. Gellir hefyd ei defnyddio i roi gwybodaeth allweddol ar Blackboard. At hynny, defnyddir elfennau allweddol o'r wybodaeth a gofnodwyd yn y templedi modiwlau gan setiau data allweddol.

I greu fersiwn pdf o'r wybodaeth modiwlau, dewiswch 'Print' ar waelod y templed. Gellir gweld y fersiwn pdf o'r sgrîn Ffurflen y Modiwl ar y sgrîn Cynnal a Chadw Modiwlau.



O ganlyniad, mae'n hynod bwysig eich bod yn cadw'r wybodaeth ar-lein am fodiwlau'n gyfredol drwy Adolygu Modiwlau bob Blwyddyn. Bydd cwblhau Adolygiad Blynyddol Modiwl yn arbed amser ac adnoddau i chi oherwydd na fydd angen i chi ddiweddaru nifer o ffynonellau gwybodaeth am y modiwl na chywiro gwybodaeth anghywir a gynhyrchir gan y Gyfadran/Ysgol neu'r Brifysgol.